**CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CAERFFILI,**
**CYFARWYDDIAETH GWASANAETHAU CYMDEITHASOL**

**TÎM COMISIYNU**

# ADRODDIAD MONITRO CONTRACTAU

**Enw/Cyfeiriad y Darparwr:** Tŷ Gwilym, Heol y Llys, Energlyn, Caerffili, CF83 2LU

**Dyddiad yr Ymweliad:** Dydd Gwener 28ain o Fawrth 2017

**Swyddog(ion) sy'n Ymweld:** Ceri Williams , Swyddog Monitro Contractau, CBS Caerffili
Caroline Roberts, Swyddog Monitro Contractau, CBS Caerffili

**Presennol:** Gaynor Mazurzcak, Rheolwr Tŷ Gwilym

## 1. Cefndir

**1.1** Mae Tŷ Gwilym yn fyngalo mawr sydd wedi'i leoli ar gyrion tref Caerffili. Mae'r cartref wedi'i gofrestru i ddarparu gofal seibiant am hyd at 4 unigolyn sydd ag anabledd dysgu ar unrhyw un adeg. Mae'r gwasanaeth ar gael i bobl rhwng 18 - 65 oed.

**1.2** Cynhaliwyd yr ymweliad monitro diwethaf ar 16 Mawrth 2016 ac ar y pryd, adnabuwyd 5 Cam Gweithredu Cywirol a 3 Cam Gweithredu Datblygol. Bwriad yr ymweliad oedd i ddilyn y camau gweithredu hyn a chwblau camau gweithredu perthnasol yr offeryn monitro.

**1.3** Cafodd y Swyddog Monitro Contractau wybod fod yn 40 o bobl yn cael mynediad at y gwasanaeth ar hyn o bryd, ac 1 person yn cael ymweliadau rhagarweiniol.

## 2. Awgrymiadau Blaenorol

### 2.1 Camau Gweithredu Cywirol

**2.1.2** Pob aelod o staff i ymgymryd â hyfforddiant gorfodol yn unol â **NMS 26.1**
**Wedi ei fodloni:** Mae pob aelod o staff wedi derbyn yr hyfforddiant gorfodol.

**2.1.3** Cynlluniau'r Gwasanaeth i ganolbwyntio ar yr unigolyn, a chael ei lunio gyda chyfranogiad yr unigolyn, teulu, ffrindiau neu eiriolwyr lle bo'n briodol, yn unol â **NMS 6.6**
**Wedi ei fodloni:** Mae cynlluniau newydd y gwasanaeth wedi cael eu cyflwyno ac yn canolbwyntio ar yr unigolyn ac yn cynnwys cyfranogiad gan yr unigolyn, teulu, ffrindiau neu eiriolwyr lle bo'n briodol.

**2.1.4** Cynlluniau'r gwasanaeth i gael eu llofnodi gan unigolyn a/neu berthynas neu reswm os nad yw wedi cael eu dogfennu'n briodol i gael eu darparu. **NMS 6.6**
**Nid wedi ei fodloni:** O'r tri chynllun gwasanaeth a welwyd, dim ond un oedd wedi ei lofnodi.

**2.1.5** Adroddiad Sicrwydd Ansawdd (QA) Blynyddol i gael ei gwblhau a'i rannu gyda rhanddeiliaid. **NMS 30.4**

**Nid wedi ei fodloni:** Nid yw'r adroddiad Sicrwydd Ansawdd blynyddol wedi'i gwblhau hyd yn hyn.

**2.1.6** Ffeiliau unigolion i gael eu cyflwyno mewn "trefn dda" a chynnwys gwybodaeth gyfredol a pherthnasol er mwyn rhoi mynediad i staff ar wybodaeth yn gyflym. **NMS 32.3**
**Wedi ei fodloni:** Roedd pob ffeil a welwyd mewn trefn dda gyda mynegeion ar flaen pob ffeil wedi'u labeli'n glir.

## 2.2 Datblygiadol

**2.2.1** Ystyriaeth i gael ei rhoi i ddatblygu taflen arwyddo ar ddogfennau'r "proffil personol" i ddangos bod pob aelod o staff wedi'i darllen.
**Wedi ei fodloni:** System newydd wedi'i chyflwyno gan y Rheolwr, gweler corff yr adroddiad.

**2.2.2** Copi o'r cylchlythyr i gael ei e-bostio at y tîm comisiynu.
**Wedi ei fodloni:** Copi cyfredol o'r cylchlythyr wedi'i dderbyn gan y Tîm Comisiynu.

# 3. Canfyddiadau'r Ymweliad

## 3.1 Adroddiadau o'r Asiantaethau

**3.1.1** Cafodd ymweliad diwethaf CSSIW ei gynnal ar 23 Chwefror 2016 ac roedd yn arolwg canolbwyntiedig.

**3.1.2** Darganfyddodd hwn y gall y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth fod yn hyderus eu bod nhw'n cael eu gofalu amdanynt gan staff gymwys sy'n eu trin gyda chwrteisi, urddas a pharch.

**3.1.3** Argymhellodd CSSIW ddau gam gweithredu i wella'r gwasanaeth.

**3.1.4** *Bydd Cynllunio Gofal yn elwa o fod yn fwy bersonol ac o ganolbwyntio ar yr unigolyn.* .
Mae pob dogfen sydd wedi'i defnyddio ar gyfer cynllunio gofal wedi cael ei hadolygu yn ddiweddar er mwyn adlewyrchu dogfen cynllunio gwasanaeth sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn

**3.1.5** *Parchu a Gwarchod hawliau cyfreithiol a hawliau sifil defnyddwyr y gwasanaeth.*
Roedd y cam gweithredu hwn yn gysylltiedig â Threfniadau Diogelu Rhag colli Rhyddid (DoLS) sydd yn eu lle ar gyfer y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth nad oedd yn gallu cytuno i ofal. Mae'r rheolwr wedi cyflwyno ceisiadau ar gyfer pob unigolyn sy'n cael mynediad at y gwasanaeth perthnasol.

**3.1.6** Ni chafwyd unrhyw gynwion ers yr ymweliad minotro diwethaf a ni chodwyd unrhyw bryderon gan reolwyr gofal nag eiriolwyr eraill.

## 3.2 Dogfennaeth

**3.2.1** Gwelwyd ffeiliau tri unigolyn yn ystod yr ymweliad diwethaf. Cadwyd y ffeiliau mewn cwpwrdd dan glo mewn swyddfa i fyny'r grisiau. Wedi ei fodloni: Roedd pob ffeil a welwyd mewn trefn dda gyda mynegeion ar flaen pob ffeil wedi'u labeli'n glir.

**3.2.2** Roedd y cynlluniau gwasanaeth a welwyd yn cynrychioli'r cynlluniau gofal. Mae dogfennaeth cynllunio gwasaneth wedi'i chyflwyno. Mae'r ddogfennaeth yn canolbwyntio ar yr unigolyn yn fwy ac yn ffocysu ar beth all yr unigolyn ei gyflawni yn annibynnol ac yr hyn efallai y bydd angen cymorth gydag ef. Mae hi hefyd yn manylu ar hoff a chas bethau ac arferion. Defnyddir anogaethau gweledol ar gyfer categoriau gwahanol o'r cynlluniau gwasanaeth h.y. maeth, meddygyniaeth sy'n hawdd i'r staff eu defnyddio.

**3.2.3** O'r 3 ffeil a welwyd, ond un oedd wedi'i lofnodi gan yr unigolyn neu gynrychiolydd. Eglurwyd gan y rheolwr ei fod yn aml yn anodd cael llofnodion gan yr unigolyn/cynrychiolydd gan ei fod yn wasanaeth seibiant. Argymhellir bod cynlluniau'r gwasanaeth yn cael eu cwblhau a'u llofnodi ynghyd â'r 'Proffil Personol' a ddefnyddir gan y wasanaeth.

**3.2.4** Mae Proffil Personol hefyd yn cael ei gynnwys yn y ddogfennaeth. Cwblheir hwn cyn i'r unigolyn cael mynediad at y gwasanaeth seibiant a gyda'r unigolyn ac aelodau'r teulu. Mae'n cynnwys dewisiadau, rheolaeth y cyflwr ac arferion dyddiol ac yn cael ei lofnodi gan yr unigolyn neu gynrychiolydd.

**3.2.5** Cofnodir meddyginiaeth wrth iddi gael ei derbyn. Nodir rheolaeth a gweinyddiaeth meddyginiaeth yn glir yn nogfennaeth cynllunio gwasanaeth a chwblhawyd yr holl siartiau gweinyddol a welwyd yn gywir.

**3.2.6** Mae'r rheolwr wedi cyflwyno 'Ffeil Diweddaru' sy'n monitro unrhyw Gynlluniau Gofal newydd, Asesiadau Risg newydd, ayyb, a dderbyniwyd gan staff rheoli gofal. Rhoddwyd y rhain yn y ffeil diweddaru gyda thaflen llofnod aelodau'r staff. Unwaith i bob aelod o staff ddarllen y wybodaeth a chwblhau'r daflen llofnod i ddangos eu bod wedi'i darllen, rhoddir y wybodaeth yn y ffeil perthnasol.

**3.2.7** Roedd hefyd gan bob ffeil ffurflenni cyn aros, crynodeb o'r seibiant ac ar ôl aros. Roedd y ffurflenni ar ôl aros yn manylu ar gyfathrebiad dilynol gyda'r unigolyn neu gynrychiolydd ynghylch eu cyfnod gyda'r gwasanaeth seibiant.

**3.2.8** Nodir manylion gofal ar daflenni cofnodi dyddiol, sy'n nodi manylion am y bwyd sydd wedi'i fwyta, gofal personol, gweithgareddau sy'n cael eu mwynhau a meddyginiaeth a weinyddir. Roedd y cofnodion hyn yn fanwl, llawn gwybodaeth ac yn canolbwyntio ar yr unigolyn.

## 3.3 Adborth Defnyddwyr y Gwasanaeth a Rhanddeiliaid

**3.3.1** Mae'r gwasanaeth yn cynnal holiadur 'Ar Ôl Aros' er mwyn derbyn adborth gan deuluoedd/cynrychiolwyr am eu hamser gyda'r gwasanaeth seibiant. Roedd gan bob holiadur a welwyd adborth gadarnhaol.

**3.3.2** Roedd y swyddog monitro contractau yn gallu siarad ag aelod o deulu person a oedd wedi aros yn y cartref yn aml er mwyn cael adborth. Roedd y perthynas yn ganmoliaethus iawn ynglŷn â'r cartref a'r staff a nodwyd bod ei berthynas wastad yn edrych ymlaen at aros yn y cartref. Nodwyd bod dim rheswm i gwyno neu godi unrhyw bryderon ynglŷn â'r cartref.

**3.3.3** Cydnabyddodd y rheolwr fod yr adroddiad Sicrwydd Ansawdd (QA) ar gyfer y gwasanaeth eto i'w gwblhau ond unwaith iddo gael ei wneud, bydd yn cael ei rannu

gyda'r unigolion/teuluoedd er mwyn rhoi gwybod iddynt am welliannau o fewn y gwasanaeth a chroesawu adborth ganddynt.

**3.4 Gweithgareddau**

**3.4.1** Dywedodd y Rheolwr wrth y Swyddog Monitro Contractau fod nifer o weithgareddau yn cael eu cynnal tra bod pobl yn aros yn Nhŷ Gwilym, yn unol â dewisiadau'r bobl a ffactorau eraill ar y diwrnod. Mae'r gweithgareddau'n amrywio o siopa a bowlio, mynd i'r sinema, bwyta allan neu ymweld ag ardaloedd lleol.

**3.4.2** Mae unrhyw newidiadau i'r gweithgareddau sy'n cael eu mwynhau (neu ddim) gan yr unigolyn yn cael eu trafod fel rhan o'r holiadur cyn aros, er mwyn rhannu gwybodaeth newydd.

**3.4.3** Roedd yna dystiolaeth yn y cofnodion dyddiol bod amrywiaeth o weithgareddau yn cael eu mwynhau gan yr ymwelwyr tu fawn a thu allan i'r cartref. Yn ogystal, mae pob aelod o staff yn adnabod pob ymwelwr ac yn gwybod am eu hoff bethau a chas bethau gan fod yna dîm o staff cryf.

**3.5 Awyrgylch y Cartref / Maeth**

**3.5.1** Mae'r cartref wedi'i addurno'n ddymunol, yn lan ac yn daclus.

**3.5.2** Gan fod yr ymwelwyr yn aros am gyfnod byr o amser, maent yn cael eu hannog i ddod ag eitemau personol i wneud i'r cartref mor bersonol â phosib. Yn ogystal, mae platiau enw yn cael eu rhoi ar ddrysau ystafelloedd gwely try gydol eu hamser yno. Hefyd, mae yna luniau o aelodau'r staff a phobl sy'n cael mynediad at y cartref o gwmpas yr ardaloedd byw.

**3.5.3** Mae gan bob ymwelwr yr opsiwn i ddewis bwth i'w fwyta a phryd, gan gofio hoff a chas bethau a gwerth maethol y bwyd.

**3.5.4** Hefyd, anogir ymwelwyr y cartref i helpu gyda siopa bwyd, a pharatoi bwyd er mwyn hybu cyfranogiad ac annibyniaeth.

**3.6 Staffio**

**3.6.1** Nodwyd y rheolwr eu bod wedi cael y cyfle i recriwtio dau aelod o staff dros y deuddeg mis diwethaf oherwydd sawl rheswm.

**3.6.2** Nid yw'r cartref yn defnyddio unrhyw weithwyr asiantaeth ac mae sifftiau yn cael eu gweithio gan staff wrth gefn sy'n gweithio o fewn y ddau gartref CBSC. Mae pob aelod o staff yn gyfarwydd â'r bobl sy'n aros yn y cartref ac yn ymwybodol o'u dewisiadau, arferion ac anghenion.

**3.6.3** Gwelwyd dau ffeil staff yn ystod yr ymweliad. Roedd pob dogfen angenrheidiol ar gael ac wedi'i ddiweddaru.

**3.6.4** Roedd y matrics goruchwyliaeth ar gael i'r swyddogion monitro contractau Mae hyn yn dystiolaeth o oruchwyliaeth staff reolaidd yn unol â'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

**3.6.5** Nid oedd unrhyw dystiolaeth o staff yn derbyn arfarniadau blynyddol o fewn y deuddeg mis diwethaf. Cynghorir y rheolwr y bydd y rhain yn cael eu cynllunio yn fuan.

**3.6.6** Darparwyd copi o'r matrics hyfforddi a chynhaliwyd yr holl hyfforddiant gorfodol yn unol â safonau gofynnol cenedlaethol.

**3.6.7** Nodwyd hefyd yn y matrics hyfforddiant fod y staff wedi derbyn hyfforddiant ychwanegol, er mwyn sicrhau eu bod nhw'n cwrdd ag anghenion y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth.

## 3.7 <u>Diogelwch Iechyd a Thân</u>

**3.7.1** Mae pob aelod o staff wedi mynychu ymarfer tân o fewn y deuddeg mis diwethaf ac mae'r rhain yn cael eu cynnal dwywaith y flwyddyn.

**3.7.2** Roedd gan bob ffeil a welwyd Gynlluniau Gwacáu Personol mewn achos o argyfwng.

**3.7.3** Gwelwyd y llyfryn ddameweinau ac nid oes unrhyw ddamweiniau i'w hadrodd dros y deuddeg mis diwethaf.

## 4. <u>Camau Gweithredu Cywirol / Datblygiadol</u>

## 4.1 <u>Cywirol</u>

**2.1.4** Cynlluniau'r gwasanaeth i gael eu llofnodi gan unigolyn a/neu berthynas neu reswm os nad yw wedi cael eu dogfennu'n briodol i gael eu darparu. **NMS 6.6**

**4.1.2** Adroddiad Sicrhau Ansawdd (QA) i gael ei gwblhau a'i rannu â'r holl randdeiliaid. **NMS 30.4**

**4.1.3** Staff i dderbyn gwerthusiad blynyddol o receive annual appraisal with their line manager **NMS 27.6**

## 5. <u>Casgliad</u>

**5.1** Er bod yr ymweliad wedi adnabod sawl ardal i'w gwella, mae'r awgrymiadau hyn i'w gwneud â dogfennaeth, ac mae'r adborth gan berthnasau yn arddangos ansawdd da'r gofal sy'n cael ei ddarparu i ymwelwyr y cartref.

**5.2** Roedd yn braf nodi bod yr argymhellion blaenorol wedi'u bodloni.

**5.3** Mae yna newidiadau rheoli wedi digwydd yn ddiweddar er bod hyn wedi sefydlogi nawr a nodwyd bod gan y cartref rheolwr newydd.

**5.4** Hoffai'r Swyddog Monitro Contractau ddiolch i Reolwyr Tŷ Gwilym am ei hamser a'i lletygarwch.

Awdur: Ceri Williams
Dynodiad: Swyddog Monitro Contractau
Dyddiad: 12fed Mai 2017

N.B. Bydd yr adroddiad hon ar gael trwy wefan Cyngor Bwrdesitref Sirol Caerffili. Bydd copiau caled o'r adroddiad hefyd ar gael i ddarpar breswylwyr a/neu eu teuluoedd os hoffai nhw eu gweld.